

FFEDERASIWN CFFI CYMRU

Disgrifiad Swydd

Teitl y Swydd: Gweinyddwr Digwyddiadau (Dros dro)

Atebol i: Rheolwr Cyllid a Gweinyddu

Cefndir y sefydliad

Mae Ffederasiwn CFFI Cymru yn fudiad ieuenctid gwirfoddol sy'n gweithio'n bennaf yng Nghymru wledig. Gall unrhyw blant a phobl ifanc 10 – 26 mlwydd oed ymaelodi â'r mudiad. Mae'r mudiad yn cynnig llawer o gyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu trwy ystod eang o raglenni addysgol, amgylcheddol, rhyngwladol a chymdeithasol. Mae'r CFFI yn fudiad democrataidd, sy'n cael ei redeg gan aelodau er budd aelodau.

Prif Ddiben y Swydd

Bydd deilydd y swydd yn cynorthwyo'r Rheolwr Cyllid a Gweinyddu i drefnu a chynnal y 'Pentref Ieuenctid' yn 2022 ar ran Ffederasiwn CFFI Cymru.

Prif Ddyletswyddau

- Darparu cymorth gweinyddol i'r Rheolwr Cyllid a Gweinyddu mewn perthynas â'r Pentref Ieuenctid
- Trefnu'r seilwaith gofynnol gyda chyflenwyr yn unol â'r gofynion a bennir gan y Rheolwr Cyllid a Gweinyddu
- Cydweithio'n agos â chyflenwyr i ddarparu manylion y safle iddynt a manylion eu gofynion fel cyflenwr.
- Cynorthwyo i drefnu a rhedeg y Pentref Ieuenctid yn unol â chyfarwyddiadau'r Rheolwr Cyllid a Gweinyddu.
- Ymgysylltu ag aelodau a darpar gwsmeriaid trwy gydol y broses archebu.

Manyleb Bersonol

Meini Prawf Hanfodol

- Profiad o gydweithio â sefydliadau trydydd parti
- Sgiliau cymell cryf
- Sgiliau trefnu cryf
- Y gallu i weithio o'i ben a'i bastwn ei hun, ac fel rhan o dîm hefyd
- Profiad o weithio mewn sefydliad prysur, ble gall y galw o ran amser newid yn feunyddiol.
- Hyderus o ran defnyddio cynhyrchion Microsoft Office yn effeithiol.
- Y gallu i gynnal terfynau proffesiynol bob amser.
- Sicrhau y cynhelir agwedd broffesiynol bob amser mewn perthynas â chyfrinachedd.
- Ystyried a pharchu safbwyntiau, amgylchiadau a theimladau cydweithwyr, aelodau, gwirfoddolwyr a rhanddeiliaid, gan drin unigolion â pharch, a chydabod yr ystod amrywiol o anghenion.
- Ysgwyddo cyfrifoldeb personol am sicrhau fod pethau'n digwydd a darparu gwasanaeth sy'n cyflawni safon uchel yn gyson.

Meini Prawf Dymunol

- Dealltwriaeth dda o waith y Mudiad.

Rheoli Llinell

Prif Weithredwr CFFI Cymru yw'r rheolwr llinell. Mae holl staff y mudiad yn atebol i Gyngor CFFI Cymru trwy law Cadeirydd y Ffederasiwn a'r Pwyllgor Personél a Thâl.

Gweithle

Gweithle deilydd y swydd fydd Canolfan CFFI, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanfair ym Muallt; fodd bynnag, ystyrir hyblygrwydd am ran o'r wythnos waith. Bydd gwaith hefyd yn digwydd yn rheolaidd oddi allan i'r swyddfa.

Teithio

Mae'n hanfodol fod gan yr ymgeisydd llwyddiannus drwydded yrru gyfredol lawn.

Amodau

Bydd angen i'r swyddog weithio 22 awr yr wythnos. Bydd angen i'r swyddog weithio gyda'r hwyr hefyd, yn ogystal â rhai penwythnosau. Caniateir amser i ffwrdd yn lle unrhyw oriau a weithir sy'n ychwanegol i'r 22 awr.

Gwyliau Blynyddol

Caniateir 24 diwrnod o wyliau blynyddol, ar sail pro-rata, yn ogystal â'r diwrnodau statudol.

Cytundeb

Cynigir y swydd hon dan gytundeb dros dro hyd at 31ain Awst 2022.

Cyflog a Phensiwn

Cyflog y swydd hon yw £10 am bob awr a weithir.

Bydd Ffederasiwn CFFI Cymru yn cyfrannu at gynllun pensiwn.

Terfynu'r Swydd

Gall y swydd hon gael ei therfynu gan y gweithiwr neu'r cyflogwr gan roi rhybudd ysgrifenedig fis ymlaen llaw.

Cefnogir y rôl gan:



Llywodraeth Cymru
Welsh Government